# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Chwefror 9fed 2022

**Presennol**

Cyng. S.Roberts,G.Edwards,G.Hughes,D.Morris

**<u>Ymddiheuriadau:</u>**

Cyng Jenkins, Cyng Dixon,Cyng Gavin Jones.

**Cofnodion Ionawr 2022.**

Cynnigodd D.Morris fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan Cyng G.Jones

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

Y Bothy- Yn dilyn ei sylwadau am achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y bwthyn ac o'i amgylch, mae Cyng Dixon wedi siarad ag aelodau'r CNC ac mae'r problemau bellach wedi eu datrys.

Diffibrilydd ardal Hermon- Mae'r Clerc wedi gosod erthygl yn Llygad y Dydd yn hysbysebu lleoliad y diffibrilydd newydd ac yn diolch i berchennog Dolfrwynnog Newydd am ganiatau gosod yr offer ar ei dir.

**Cynghorydd Sir.**

Ddim yn bresennol.

**Ardal ni.**

Mae'r cyngor wedi derbyn gwybodaeth gan Cyngor Gwynedd yn tynnu sylw aelodau'r cyngor cymuned at adroddiad sy'n deillio o waith ymgysylltu Cam 1 - Ardal Ni 2035.

Fe fydd Cyngor Gwynedd mewn cysylltiad pellach maes o law gyda manylion pellach ynglyn a Cham 2 y gwaith ymgysylltu.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Ionawr 2022

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £3578.80 |
| Derbyniwyd: | |
| Ad daliad gwaith cynnal a chadw llwybrau | £577.10 |
| Ad daliad TAW | £458.68 |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £9 |
| Yn y banc diwedd mis | £4505.58 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Awdit mewnnol 2021-22.

Mae'r cyngor wedi derbyn cadarnhad gan archwilwyr Cyngor Gwynedd y byddant yn cynnal yr archwiliad mewnol ar ran Cyngor Ganllwyd am y flwyddyn ariannol yn diweddu Mawrth 2022.

Awdit allanol 2020-21.

Mae'r cyngor wedi derbyn cadarnhad gan Swyddfa Archwilio Cymru bod yr archwiliad allanol wedi ei gwblhau. Mae'r hysbysiadau statudol wedi'u harddangos ar wefan y cyngor ac ar hysbysfyrddau cymunedol.

Ad-daliad TAW.

Fel a gwelir yn manylion y cyllid misol (Ionawr) mae'r cyngor wedi derbyn ad daliad TAW gan HMRC.

Praesept 2022-23.

Mae cyngor Gwynedd wedi derbyn cais praesept cyngor Ganllwyd am y flwyddyn arainnol 2022-23.

Y Wefan.

Mae aelodau'r cyngor wedi cytuno talu anfoneb (£206) a dderbyniwyd gan Mr ap Gomer am waith cynnal a chadw'r Wefan.

**Llythyrau & E-bost.**

Derbynnnwyd e-bost gan Gyngor Tref Nefyn yn cynnal gwybodaeth am 3 ymgynghoriad a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynghorwyr wedi cael cyfeiriad y Wefan lle gellir dod o hyd i'r ymgynghoriadau.

Unrhyw fater arall.

Mae Cyng Hughes wedi mynegi pryderon am faint o sbwriel sy'n cael ei daflu ar ochr ffordd yr A470 rhwng y pentref a Gelli Goch.

Clerc i ymgynghori gyda Chyngor Gwynedd am y sefyllfa yma.